cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd

Rhif 63
Gorffennaf - Medi 2011

Golygyddol

Gwynn Williams

Felly fe ddaeth *The News of the World* i ben ond fe â'r byd a'i newyddion yn ei flaen. Ni fedrwn ond cydymdeimlo â'r rhai sydd wedi colli eu swyddi fel canlyniad i hyn. Profiad anodd ar y gorau yw cael eich gwneud yn ddiwaith ond llawer mwy dirdynnol pan mai anfadwaith eraill yw'r achos.

Nid oes rhaid i ddyn fod wedi prynu na darllen y papur i wybod beth oedd ei nodweddion. Gwelsom ddigon o hysbysebion i wybod mae'r stori 'Exclusive' oedd y peth. Storïau oedd yn datguddio pechodau pobl adnabyddus i'r cyhoedd; datguddio twyll rhai enwogion yn eu priodasau; datguddio parodrwydd eraill i gael eu llwgrwobrwyo mewn gwahanol feysydd; rhoi i'r cyhoedd wybodaeth am sut yr oedd rhai aelodau seneddol ac eraill yn torri'r gyfraith; datguddio rhagrith rhai mewn bywyd cyhoeddus oedd yn dweud un peth a gwneud rhywbeth arall. Mae'n amlwg y disgwylid i ni y cyhoedd deimlo ein dyled i'r *News of the World* am ddatguddio'r pechodau hyn wrth iddynt achosi cwymp y rhai a dargedwyd. Ac wrth gwrs fe wnaed hyn dros gyfnod o wythnosau yn ddidruagredd, gan nad oes ffordd gwell o werthu papur na chadw stori dda i fynd. Ac wrth gwrs roedd y cyhoedd oedd ag archwaeth ddibendraw i ddarllen storïau o'r fath yn tyrru bob Sul i brynu'r papur.

Bellach gwyddom fod y rhai oedd mor hunan gyfiawn yn datgelu'r twyll yn euog o dwyllo eu hunain; y rhai oedd yn cyhuddo eraill o gymryd llwgr wobr wedi bod yn gwneud yr un peth; y rhai oedd yn cadw'r safonau trwy ddatgelu pwy oedd yn torri y gyfraith wedi bod eu hunain yn torri y gyfraith ; rhai oedd mor barod i ddangos rhagrith wedi bod eu hunain yn rhagrithwyr.

Mewn ffordd ni'n synnir gan hyn. Oherwydd pawb â bechasant. Papur oedd y *News of the World* fel pob papur arall am bechduriaid a ysgrifennwyd gan bechaduriaid ac ar gyfer pechaduriad i'w ddarllen. Y newyddion da i'r byd yw ddyfod Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid – ac fe ddylem i gyd fedru ategu fel y gwnaeth Paul 'o ba rhai pennaf ydwyf fi'.

Patagonia

Lois Dafydd

Wel wir, mae'n anodd credu 'mod i ym Mhatagonia ers tri mis! Dwi wedi teimlo'n gartrefol iawn yma o'r cychwyn cyntaf, gan fod pawb wedi bod mor groesawgar a chyfeillgar. Fy swydd gyda Menter Patagonia yw cynnig cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg i bobl, a dwi wedi bod yn cadw'n brysur! Ymysg fy ngweithgareddau wythnosol mae Cylch Chwarae Dolavon, Clwb Darllen, Clwb Ieuenctid Gaiman, Sgwrs Trelew a dysgu Cymraeg i rieni. Ond dwi wrthi o fore gwyn tan nos rhwng gwahanol bethau – côr, beirniadu mewn eisteddfodau, cyfieithu bwydlenni, a dwi wedi dechrau papur bro o'r enw *Clecs Camwy*.

Mae'n rhaid i mi f'atgoffa fy hun weithiau mai ym Mhatagonia ydw i, achos galla i dreulio diwrnod cyfan yn siarad dim ond Cymraeg! Yn Gaiman, lle dwi'n byw, mae'r gymuned Gymraeg amlycaf, a dwi'n dal i gwrdd â siaradwyr Cymraeg o'r newydd. Ar fy niwrnod cyntaf yma, mynychais oedfa Gymraeg yng Nghapel Bethel – capel hollol Gymreig ei olwg, ac yn eistedd tu mewn iddo roedd rhyw hanner dwsin o fenywod hollol Gymreig eu golwg! Am brofiad swreal, ond gwefreiddiol, oedd addoli gyda nhw yn Gymraeg, a chanu'r emynau cyfarwydd filoedd o filltiroedd o Gymru. Dwi wedi ymweld â nifer o'r capeli Cymraeg eraill ers hynny.

Dwi'n cael bendith fawr o'r croeso a'r gymdeithas Gymraeg a Sbaeneg yn y capel. Ry'n ni'n canu penillion Cymraeg ym mhob oedfa er mwyn i mi allu canu, ac yn rhan o'r cyhoeddiadau'n ddiweddar canodd pawb 'Pen Blwydd Llawen / Feliz Cumpleaños' i mi! Mae ganddyn nhw atgofion melys a bendithiol iawn o gyfnod Phil, Angharad a'r teulu yma yn yr 1980au, ac mae'r gwersylloedd a ddechreuwyd bryd hynny'n mynd o nerth i nerth. Os yw'r ymdrech i siarad Sbaeneg gyda Carlos Ruiz, y pregethwr, yn mynd yn ormod, mae crybwyll enw Phil yn ddigon i chwalu'r muriau ieithyddol!

Does dim pregethwr Cymraeg yma ar hyn o bryd, ond mae 'na awydd mawr i addoli yn Gymraeg.

Ryw bythefnos ar ôl cyrraedd, trefnais Gwrdd Diolchgarwch a thraddodi'r neges ynddo. Wna i ddim gwadu fod fy nghoesau fel jeli wrth gerdded at y sedd fawr, ond bendithiodd Duw y cwrdd. Profiad rhyfedd oedd ei gynnal gyda'r haul yn tywynnu, a llysiau fel *aubergines* ac *avocados* ymysg y rhoddion! Dwi wedi rhoi negeseuon mewn oedfaon Pasg ers hynny, trefnu cwrdd canu i ddysgu emynau Cymraeg newydd, a chynnal ambell oedfa arall. Llawenydd mawr i bawb oedd lansio'r Testament Newydd Cymraeg/Sbaeneg yn ddiweddar, gyda rhyw 5,000 o gopïau yn Buenos Aires am amser heb ffordd i'w cludo yma. Ac i gyd-fynd â'r lansiad, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yn Bethel a oedd hefyd yn gwrdd i gofio am fywyd a gwaith Mair Davies. Mae'n rhyfedd meddwl na chwrddais i erioed â Mair. Mae ei henw a'i gwaith yn dal i ennyn parch mawr yma, a'r golled ar ei hôl yn amlwg. Ar y gwahoddiad i'r Cwrdd oedd y geiriau, '…ond y mae gair ein Duw ni yn sefyll hyd byth' (Eseia 40:8). Felly'r weddi yw y bydd gair Duw yn parhau i gael ei gyhoeddi yma ym Mhatagonia – p'un bynnag fydd yr iaith.

Rawlins White: Py

Noel Gibbard

Ar 30 Mawrth 1555, roedd marchnad yng Nghaerdydd, a'r bobl wrthi'n brysur yn prynu a gwerthu. Ond nid diwrnod marchnad arferol oedd hwn, oherwydd roedd disgwyl am ddigwyddiad anarferol yn ystod y dydd; roedd 'na berson i'w losgi'n fyw. Pan ddaeth yr amser penodedig, heidiodd tyrfa o bobl i fod yn dystion i'r olygfa erchyll.

Y gŵr a oedd i farw oedd Rawlins White, pysgotwr tlawd, anllythrennog, ond gwnaeth un o'i blant ddysgu darllen Saesneg, ac arferai yntau ddarllen yr Ysgrythur, a llyfrau eraill, i'w dad. O ganlyniad, argyhoeddwyd Rawlins White o wirionedd y ffydd Brotestannaidd; gwelodd fod offeren Eglwys Rufain yn groes i'r Ysgrythur, ac mai trwy ffydd yn unig y cyfiawnheir dyn gerbron Duw. Yn ystod teyrnasiad Protestannaidd Edward I, cafodd y pysgotwr ryddid i ddatgan ei ffydd, ac i ennill eraill at Grist, ond pan

sgotwr a Merthyr

ddaeth Mari i'r orsedd yn 1553, a hithau'n Babyddes, erlidiwyd y Protestaniaid yn greulon. Arestiwyd Rawlins White, a'i gyhuddo o heresi. Carcharwyd ef yng Nghas-gwent, yng Nghastell Caerdydd, ac mewn carchar arall yn y dref.

Gwnaethpwyd sawl ymdrech i'w berswadio i wadu ei ffydd ac arddel y ffydd Babyddol yn lle, ond gwrthododd ildio. Dyfarnwyd ef i farwolaeth, a threfnwyd i'w losgi. Roedd yn olygfa drist dros ben: y dyrfa yn bloeddio, 'Llosgwch ef!"; offeiriad wrth ochr y merthyr yn ei gondemnio fel heretic, a gwraig Rawlins White a'u plant yn eu dagrau. Rhwymwyd ef wrth y stanc, a dyma ddarn o'r disgrifiad o'i ddioddefaint: 'yn y tân yr oedd y merthyr dioddefus fel un yn trochi ei freichiau yn y fflam, hyd onid oedd y gïau yn crebachu, a'r brasder yn diferu ohonynt.'

Fel pysgotwr, buasai Rawlins White yn gyfarwydd â stormydd, ond dyma'r storm ffyrnicaf y bu raid iddo ei hwynebu. Er hynny, gwyddai i bwy y credodd, ac roedd eisoes wedi bwrw ei angor y tu hwnt i'r llen. Bu farw'n orfoleddus.

Mae cofeb i Rawlins White yn adran y dynion yn siop James Howells yng nghanol Caerdydd, ar leoliad hen gapel Bethany, y Bedyddwyr Saesneg. Pan adeiladwyd y siop, symudodd achos y Bedyddwyr i Lanisien, ond arhosodd y gofeb yn ei safle gwreiddiol. Mae coffa arall i'r merthyr yn Eglwys Ieuan Sant (St. John's) yng nghanol y ddinas.

Un o dri a ferthyrwyd yn yr un cyfnod oedd Rawlins White. Y ddau arall oedd yr Esgob Ferrar yng Nghaerfyrddin a William Nicol yn sir Benfro.

Adolygiad

Meleri Perkins

Joseff, **Sulwyn Jones (Mudiad Efengylaidd Cymru, £5.95)**

Fe glywais rai o'r anerchiadau sydd wedi eu casglu ynghyd yn y gyfrol hon yng Nghynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru yn 2007 ac, ers hynny, y mae rhai ohonom wedi edrych ar fywyd Joseff yn Astudiaeth Grangetown, ond roeddwn yn falch o'r cyfle i gael myfyrio eto ar yr hanes hynod hwn

Wrth ddilyn Joseff o'i laslencyndod i'w brofiadau amrywiol yn yr Aifft ac, yn olaf, wrth iddo wynebu marwolaeth, tynnir allan wersi sy'n berthnasol i bob un ohonom, achos fel y dywed yr awdur, dyma ddyn duwiol sy'n *role model* i bob Cristion. Credaf y bydd ei hanes yn galondid arbennig i gredinwyr sydd yn ymwybodol mai nhw yw'r unig Gristion yn eu sefyllfa benodol, boed hynny o fewn teulu neu gylch arall. Esbonnir bod profiad Joseff yn dangos nad ydym byth ar ein pennau ein hunain. Yn wir, mae teitl y llyfr bron yn gamarweiniol, achos mae Duw yn ganolog i'r hanes, wedi trefnu profiadau rhyfedd Joseff yn ei ragluniaeth, gan ddefnyddio ei was ar gyfer ei bwrpasau graslon. Mae'r awdur yn tanlinellu hyn ac yn dangos pa mor gyffrous yw'r oblygiadau ar ein cyfer ni. Yr un Duw sydd gennym, Tad ein Gwaredwr, ac mae Sulwyn Jones yn gyson yn dangos sut yr oedd bywyd a phrofiadau Joseff yn gysgod o fywyd, marwolaeth ac, ie, hyd yn oed atgyfodiad yr Arglwydd Iesu mewn ffordd sy'n siŵr o gynhesu calon.

Mae hon yn gyfrol ddigon byr, wedi ei rhannu'n ôl yr anerchiadau ac yn dilyn bywyd Joseff yn gronolegol, ond nid yw'n llyfr y byddwch eisiau ei lowcio i lawr chwaith. Mae llawer yma wedi ei gyflwyno yn y ffordd fugeiliol arbennig sydd yn nodweddiadol o'r Parch. Sulwyn Jones. Mae peth yn heriol, peth yn gysurlon. Byddwn yn argymell y llyfr yn galonnog i ddarllenwyr o bob oed sy'n chwilio am rywbeth i'w ddarllen dros yr haf.

Na ofidiwch

Gwynn Williams

Mae'r erthygl hon yn grynodeb o'r hyn a rannodd Gwynn gyda ni mewn cwrdd gweddi ar ddiwedd gwyliau'r capel ym mis Ebrill. Gofynnodd nifer am gopi o'r prif bwyntiau, felly penderfynodd pwyllgor *Cwmpawd* eu hargraffu. Beth am dynnu'r tudalennau canol yma allan a'u cadw ar bwys y gwely yn barod i'w ail-ddarllen pan fydd gofid yn bygwth ein llethu?

Mae llawer o brofiadau anodd yn gallu dod ar ein traws mewn bywyd: methiant, siomedigaeth, profedigaeth. Ond un o'r profiadau sydd yn dod amlaf i lawer ohonom, efallai, yw'r profiad o ofidio a phryderu. Gwyddom y dylem fel Cristnogion fod yn ddoeth yn y modd yr ydym yn ystyried bywyd a'i amgylchiadau, ond gwyddom hefyd fod yna adegau pan groeswn linell ystyriaeth ddwys a chall a chyrraedd tiriogaeth gofidio.

A oes help i'w gael yn yr ysgrythur wrth i ni geisio delio â gofid? Yn y Bregeth ar y Mynydd cawn fod yr Arglwydd Iesu Grist yn rhoi bron i un rhan o ddeg o'i bregeth i ddelio â'r union fater hwn. Cawn ei ymdriniaeth ym Matthew 6, adnodau 25–34, lle y mae'n dweud wrth ei ddisgyblion fwy nag unwaith, 'Peidiwch â gofidio'. Ac nid dweud hynny mewn ffordd galed, bant â hi y mae'n siŵr, ond gyda phob consýrn ac anwyldeb.

Beth sydd yn digwydd pan fyddwn yn gofidio? Ble mae eisteddle gofid? Er bod gofidio yn effeithio ar ein teimladau a hefyd weithiau ein cyrff, yn y meddwl y mae pethau'n dechrau. Mae'r meddwl yn drên – yn dychmygu pob math o bosibiliadau ac ati. Felly y lle i ddechrau delio â gofid yw yn y meddwl, a dyna'n union a wna Crist yn y paragraff a nodwyd yn Efengyl Matthew. Mae'n rhoi i ni resymau pam na ddylem ofidio, rhesymau y gallwn eu hailadrodd wrthym ein hunain pan fydd y tueddiad hwnnw yn codi ynom.

Mae saith rheswm yn cael eu nodi:

1. Edrychwch ar y bywyd cyfan (adnod 25)

'Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd, beth i'w fwyta na'i yfed, nac am eich corff, beth i'w wisgo; onid oes mwy i fywyd rhywun na bwyd, a mwy i'w gorff na dillad.'

Mae gofid yn codi gan amlaf am ein bod yn poeni ynglŷn â rhyw fater penodol, e.e. iechyd; arian; gwaith. Pwynt cyntaf Crist yw ein hatgoffa fel y mae mwy i'r corff na bwyd y mae mwy i fywyd na'r un peth hwnnw sydd yn ein poeni. Felly cymerer cam yn ôl ac edrych ar y darlun mawr – efallai fod pethau cadarnhaol iawn yn ein bywyd.

2. Ystyriwch ofal Duw (adnod 26)

'Edrychwch ar adar yr awyr: nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto mae eich tad nefol yn eu bwydo. Onid ydych chwi yn llawer mwy gwerthfawr na hwy?'

Dadl o'r lleiaf i'r mwyaf sydd yma. Rhaid inni ein hatgoffa ein hunain o ofal Duw trosom. Mae'n gofalu am yr adar, felly pa faint mwy y bydd yn gofalu amdanom ni sydd wedi ein creu ar ei lun a'i ddelw



– y rhai y mae wedi anfon ei Fab i'r byd i farw drosom. Felly os oes tueddiad i ofidio, edrychwch ar yr adar.

3. Ni fedrwch trwy ofidio newid dim byd (adnod 27)

'Prun ohonoch a all ychwanegu un funud at ei oes trwy bryderu?'

Gwyddom nad yw poeni yn mynd i effeithio dim ar hyd bywyd sydd yn llaw Duw. Felly hefyd gydag unrhyw agwedd ar fywyd. Nid yw plentyn ysgol neu fyfyriwr yn cael marciau ychwanegol mewn arholiad trwy ofidio. Ar ôl noson o ofidio nid oes dim wedi ei newid erbyn y bore.

4. Ystyriwch haelioni Duw (adnodau 28–30)

'A pham yr ydych yn pryderu am ddillad? Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu. Ond rwy'n dweud wrthych, nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain. Os yw Duw yn dilladu felly laswellt y maes, sydd yno heddiw ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn, onid llawer mwy y dillada chwi, chwi o ychydig ffydd?'

Yn aml wrth ofidio daw yr un drwg â'i ensyniadau fod Duw yn galed arnom ac yn creu sefyllfaoedd sydd yn peri i ni ofidio a phryderu. Yr ateb yw edrych ar y lili – nid oedd rhaid i Dduw ei gwneud mor arbennig o brydferth . Ac onid felly ninnau hefyd: er bod yna fater sydd yn peri consýrn, eto mae Duw yn dda ac yn haelionus.

5. Mae'r Tad yn ein hadnabod (adnodau 31–2)

'Peidiwch felly â phryderu a dweud, "Beth yr ydym i'w fwyta?" neu "Beth yr ydym i'w yfed?" neu "Beth yr ydym i'w wisgo?" Dyna'r holl bethau y mae'r Cenhedloedd yn eu ceisio; y mae eich Tad nefol yn gwybod fod arnoch angen y rhain i gyd.'

Y ddadl nesaf yw fod y Tad yn hollwybodol ac felly yn gwybod am ein holl anghenion. Pan fydd bywyd yn mynd yn anodd mae tueddiad ynom i ddweud, 'Does neb yn deall nac yn

gwybod beth rwy'n ei wynebu'. Ond nid felly mae hi: mae'r Tad nefol yn hollwybodol, ac felly yn gwybod ac yn deall. Yn aml pan â rhywun i'r ysbyty i gael triniaeth gan arbenigwr gwneir y sylw ei fod mewn dwylo da. Pa faint mwy y Cristion, yn nwylo ei Dad nefol.

6. Ceisio teyrnas nefoedd (adnod 33)

'Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi.'

Yma mae Crist am i ni godi ein meddyliau at y ffaith bod mwy i fywyd na'n gofidiau tymhorol – mae tragwyddoldeb. Cofiwn eiriau'r emynydd, 'Cod fy meddwl uwch gofidiau amser atat ti dy hun'. Onid dyna batrwm Gweddi'r Arglwydd: gweddïo am sancteiddio enw Duw, gwneud ei ewyllys, a dyfodiad ei deyrnas cyn dod at ein hanghenion tymhorol gyda chais am fara beunyddiol. Fel y dywedodd rhywun, os oes rhaid gofidio o gwbl, gofidiwn am dri deisyfiad cyntaf Gweddi'r Arglwydd.

7. Na ofelwch dros drannoeth (adnod 34)

'Peidiwch felly â phryderu am yfory, oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun.'

Mae ein gofidio gan amlaf yn ymwneud ag yfory. Ond dywed Crist wrthym am gymeryd un dydd ar y tro oherwydd bydd yr holl gysuron sydd yno i ni heddiw yn mynd i fod yno yfory hefyd. A phwy a ŵyr na fydd y gofid wedi diflannu yn llwyr erbyn yfory beth bynnag. Cofiwn am y gwragedd yn dod at y bedd gan boeni ynglŷn â phwy oedd yn mynd i symud y maen oddi wrth ddrws y bedd – ac yn darganfod fod y maen wedi ei symud eisoes.

Felly cawn Grist yn bugeilio ei ddisgyblion wrth ragweld y byddai llawer o bethau y medrent ofidio amdanynt gan roi iddynt gyfarwyddyd ymlaen llaw sut i ddelio â hynny. Nid yw am i ofid am yfory amharu ar effeithiolrwydd ein byw heddiw.

Adroddiadau

New Word Alive

Mae'n teimlo fel amser hir er Ebrill 11-15 pan dreulion ni'r wythnos yn New Word Alive. Dyma oedd y tro cyntaf i'r ddau ohonom ni fynychu'r gynhadledd ac felly roedden ni'n gyffrous iawn (er bod Catrin yn gorfod stiwardio drwy'r wythnos!)

Fe heidiodd tua 5,000 o bobl i Bwllheli er mwyn cyd-addoli, cymdeithasu a chlywed amrywiaeth eang o siaradwyr adnabyddus. Roedd yn fraint cael ymuno â chymaint o Gristnogion eraill oedd wedi teithio hyd a lled Prydain er mwyn bod yno, a chael ein hatgoffa fod gwaith Duw yn mynd yn ei flaen.

Mae gymaint o siaradwyr gwahanol yn ystod yr wythnos dydy hi ddim yn bosib mynychu pob peth, felly y dasg anoddaf oedd dewis pa gyfarfodydd i'w mynychu. Roedd y siaradwyr i gyd yn dda iawn, ond fe wnes i fwynhau clywed Mike Reeves yn arbennig wrth iddo gyflwyno syniadau diwinyddion y gorffennol mewn ffordd hynod o ddoniol a chofiadwy.

Bydden i'n argymell yr wythnos i unrhyw un – mae rhywbeth at ddant pawb ac mae darpariaeth wych ar gyfer plant o bob oedran. Pam na wnewch chi ystyried mynd flwyddyn nesaf pan fydd NWA wedi symud i'w gartref newydd ym Mhrestatyn?

Emyr James

Gwyliau'r Capel

Doeddwn i na Polu wedi bod ar wyliau'r capel o'r blaen. Doedd byth digon o wyliau blynyddol gen i, a doedd Polu byth yn y wlad! Ond diolch i'r briodas frenhinol, a'r *UK Border Agency*, roedd 2011 yn wahanol! Roeddwn i wedi clywed llawer am y gwyliau capel, gyda wyneb Jon Glanfield yn arbennig yn goleuo wrth geisio ein perswadio ni i ddod!

Ar ôl taith weddol hir draw i Benfro, a dim un ohonom ni'n hollol siwr ble'r oeddem ni'n mynd, a dathlu wrth weld y giat

gyda'r pysgod arni, oedd yn arwydd ein bod ni wedi llwyddo i gyrraedd y lle cywir, cyrhaeddom ni jest mewn pryd ar gyfer swper – amseru da! Braf oedd gweld cymaint o bobl yna, yn enwedig y plant, ac roedd pawb yn hynod o groesawgar. Gydag amserlen o bobl i helpu gyda'r coginio a'r glanhau, cefais fy atgoffa o'r teimlad o fod yn un o Wersylloedd y Mudiad Efengylaidd – yn rhannol oherwydd mai Amanda oedd fy swog i ym Mryntirion amser maith yn ôl, ond hefyd oherwydd y teimlad o fod wedi ein hamgylchynu gan ffrindiau mewn amgylchedd ysbrydol a diogel.

Heb os, yr uchafbwynt oedd yr ymweliad â'r traeth (gyda *sausage casserole* Anti Catrin yn ail agos iawn!). Unwaith eto, doeddwn i ddim yn gwybod ble'r oeddem ni'n mynd, felly bant â ni mewn mintai! Buom ni'n ffodus iawn gyda'r tywydd...ond doedd dim un diwrnod braf yn mynd i leddfu'r boen i Polu o nofio yn y môr! Dwi'n credu y bydd e'n meddwl ddwywaith cyn dilyn y Lewisiaid i mewn i'r môr eto! Roedd hi'n hyfryd gweld y plant, y dynion a'r menywod yn mwynhau gêm o griced ar y traeth gyda'i gilydd.

Gyda'r holl hwyl a rhedeg o gwmpas yn ystod y dydd, a'r

chwerthin gyda'r cwis yn y nos, roedd yr epilog hwyrol yn gyfle i'n hatgoffa o'r hyn ddaeth â ni i gyd at ein gilydd, sef Iesu Grist. Roedd yr astudiaethau'n ffynhonnell o annogaeth, ac o gymorth ar gyfer ein bywyd bob dydd pan nad ydym ni ymhlith Cristnogion o hyd.

Roedd hi'n hyfryd medru cael cymdeithas gyda Christnogion eraill am rai dyddiau, a chael treulio amser gyda hen ffrindiau, a dod i adnabod aelodau eraill o'r eglwys yn well. Roedd hi'n brofiad da hefyd i Polu ddod yn fwy cyfarwydd gydag aelodau'r eglwys, dechrau ceisio cofio enwau pobl, a chael ymarfer ei Gymraeg. Ond yn bennaf, rydym ni'n ddiolchgar am y cyfle i deimlo'n fwy o ran o gymuned yr eglwys.

Gwenno Uhi

Cyfarfod Eglwysi'r De

Fel mae Emyr wedi sôn, gyda'r haf o'n blaenau mae'r gwanwyn yn teimlo'n atgof pell erbyn hyn. Ond roedd Mai 7fed yn ddiwrnod i'w gofio i'r criw a ddaeth ynghyd yn Nhrefeca o eglwysi Aberystwyth, Llanbed, Caerfyrddin a Chaerdydd.

Ar ôl treigl amser, beth sy'n aros yn y cof?

Cerdded i mewn i gyntedd yn llawn wynebau cyfeillgar, cyfarwydd
A chael rhagflas o'r sgwrsio oedd o'n blaenau weddill y diwrnod.

Anogaeth o le annisgwyl
Adrian Brake yn ein tywys i lyfr anghyfarwydd - Jwdas - er mwyn ein hatgoffa ein bod wedi ein galw, ein bod yn annwyl gan Dduw y Tad, a'n bod ni wedi'n cadw i Iesu Grist. Cofiwn yn arbennig bwyslais Adrian ar y gair 'annwyl'.

I'r plant - chwarae gyda Rhiain, Ieuan a Meleri
Clywsom dipyn am y gemau parasiwt ar y ffordd adref, ac mae'r bugeiliaid llwy-bren yn dal i fod mewn un darn yn y bocs tegannau (ni ellir dweud yr un peth am y defaid gwlan cotwm ysywaeth).

Y bwyd blasus
Does dim angen ymhelaethu!

Leri George

Holi Hwn a Hon

Anne

Sut daethoch chi yn Gristion?

Magwyd fi mewn cartref ble yr anrhydeddwyd pethau Duw. Fe'm dygwyd i'r oedfaon yn y capel, ond roedd hyn yn bleser, nid yn faich. Ond nid oedd hyn yn ddigon. Dechreuais ddarllen y Beibl o'r dechrau a phan gyrhaeddais Lefiticus, gyda'r aberthoedd yn fy arwain at Galfaria, roeddwn yn siŵr mai gwaith Crist ar Galfaria ac nid fy ngweithredoedd innau oedd sylfaen fy iachawdwriaeth. Mae'r sicrwydd hwn wedi fy nghynnal byth oddi hynny.

Beth yw eich hoff adnod a'ch hoff emyn?

Galatiaid 2:20:
... Mab Duw, yr hwn a´m carodd i ac a'í rhoes ei hun i farw trosof fi.

Y peth pwysig yma i mi yw'r unigol. Mae'r Iesu yn fy ngharu *i*, a bu farw trosof *fi*. I'r Arglwydd rwy'n bwysig fel person. Daeth yr alwad i'r maes cenhadol i minnau yn bersonol fel radiograffydd yn ysbyty'r genhadaeth ac fel mam i'n plant, ac nid yn unig fel gwraig Dafydd.

Nid yw dewis fy hoff emyn mor hawdd, oherwydd mae'n dibynnu ar yr iaith. Yn Saesneg, 'O love that wilt not let me go'. Yn Gymraeg, 'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb' a 'Rho im' yr hedd'. Yn Sbaeneg, mawlgan yn seiliedig ar ddwy adnod olaf epistol Jwdas.

Beth yw'r fendith fwyaf a gewch chi yn y weinidogaeth deithiol?

Gwerthfawrogi diwylliannau eraill a gweld sut mae Duw yn gweithio yng nghanol y cyfan.

James Morse

Beth yw'r peth anoddaf yn y weinidogaeth deithiol?

Ar lefel ymarferol, sicrhau nad yw'r bagiau'n rhy drwm (yn enwedig pryd mae rhaid aros i ffwrdd trwy dywydd twym ac oer), newid gwely, a dioddef o gymaint o wahanol bryfed! Ar lefel gymdeithasol, gofalu nad wyf yn euog o gamgymeriadau diwylliannol a all frifo pobl. Nid oes anhawster ysbrydol, am fod yr Arglwydd ei hun yn gyfrifol am y cyfathrebu, er gwaethaf y gwahaniaethau.

Llun: Anne gyda'i gorwyres

Newyddion

Llongyfarchiadau i Siôn Elis, Gwenllian Edwards, Cynan Llwyd, Rhys Harvard a Hywel Jones ar raddio'n ddiweddar.

Dymuniadau gorau i Luned Evans wrth iddi gychwyn ar swydd newydd mis Medi fel cynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Treganna.

Cydymdeimlwn â John Glanfield a gollodd ei nain yn ddiweddar. Cofiwn hefyd am Lois Dafydd a Gwenno Uhi a'u teulu wedi iddyn nhw golli nain.

Bu Gwenllian Edwards ar ymgyrch haf i Lydaw yn ddiweddar, gydag Emmanuel ac Esther Durand. Parhawn i weddio am ffrwyth i'r gwaith yma.

Ynghyd â pharhau yn eu hastudiaethau yn Hebreaid, bu'r gwragedd ar drip i Sain Ffagan ac yn mwynhau noson yng nghwmni Eunice Davies. Yn ystod y tymor cawsom gyfle i holi David ac Anne James Morse ar y gwaith yn Sbaen; clywsom hanes Sukey Harley wrth Enid Jones ac fe ddaeth Gwynn i'n hannerch ddwywaith ar gwestiynau dyrys!

Dros yr Haf gweddïwch dros:

Eisteddfod Wrecsam a'r Fro (30 Gorffennaf – 6 Awst), a'r cenhadu a fydd yn digwydd ar y Maes ac ym mhabell y Gorlan.

Gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru yn Llanmadog a Bryn-y-groes (6 - 13 Awst). Bydd nifer o'n haelodau yn arwain, yn coginio ac yn 'swogio,' a nifer o'n plant a'n pobl ifainc yn mynychu fel gwersyllwyr.

Cynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru yn Aberystwyth (16 - 20 Awst). Bydd John Treharne yn ymgymryd â'r prif anerchiadau, a Trystan o'n plith yn arwain un o'r cyfarfodydd nos.

Rhag-rybudd oedfaon:
Hydref 16 Dafydd Cunningham
Tachwedd 20 Adrian Brake

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...
(Ag eithrio mis Awst)

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Gorffennaf	*24*	*Gwynn Williams*
	31	*Gwynn Williams / Trystan Hallam*
Awst	*7*	*Rhodri Jones / Dafydd James Morse*
	14	*Trystan Hallam*
	21	*I'w drefnu*
	28	*Gwynn Williams*
	29	*Gwynn Williams*
Medi	*4*	*Gwynn Williams*
	11	*Trystan Hallam*
	18	*Gwynn Williams*
	25	*Trystan Hallam*

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org